


## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

<b>Cofnodion cyfarfod 17 Mai 2022 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.</b>		
<b>PRESENNOL</b>		
Iwan Huws	Liŷr Evans	
Daniel Williams	Emyr Gareth	
Dafydd Huws	Eifion Williams	
Eifion Williams		
<b>1.0</b>	<b>GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU</b>	
1.1	<p>Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Iwan Huws, derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Iestyn Harris.</p> <p>Dyweddodd y Cadeirydd bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda rhannau o'r ddeddf newydd drwy roddi gwasanaeth rhithiol gogyfer cyfarfodydd y noson. Er hynny nid oedd offer technegol y Cyngor yn ddigonol felly trafodwyd y mater a phenderfynwyd buddsoddi mewn offer priodol gan gynnwys gliniadur newydd i'r Clerc fel ased i'r Cyngor.</p> <p>Cytunodd y Cyngor ar y penderfyniadau. Y Clerc i weithredu.</p>	<b>CLERC</b>
1.2	<p>Hen Gychod. Roedd gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r cychod sydd wedi eu gadael ar y traeth. Mae rhai mewn cyflwr drwg. Mae Cyngor Gwynedd yn barod i waredu a'r cychod. Roedd y Cyngor Cymuned yn barod i gytuno i hyn ar yr amod bod rhybudd yn cael ei osod ar y cychod gyntaf a bod sylw yn cael ei roi i hyn ar wefan y Cyngor.</p>	<b>CLERC</b>
<b>2.0</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b>	
	Dim	
<b>3.0</b>	<b>CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL</b>	
3.1	<p>Cyflwynwyd y gwariant ar gyfer mis Ebrill ynghyd a'r adroddiad ariannol. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol.</p>	
3.2	<p>Yswiriant blynyddol y Cyngor. Trafodwyd cost flynyddol yr yswiriant mewn cymhariaeth o gael cytundeb tair neu phum mlynedd. Y Costau oedd fel a chanlyn:</p> <p>1 Blwyddyn: £2048.49  3 Blwyddyn: £1975.07  5 Blwyddyn: £1901.63</p> <p>Drwy gymryd cytundeb 5 mlynedd roedd y Cyngor yn sicrhau gostyngiad ar y premiwm. Penderfynwyd ar gytundeb o 5 mlynedd.</p>	
3.3	<p>Cyflwynwyd cytundeb blynyddol gwastraff masnachol ar gyfer y fynwent. Cost flynyddol y contract fydd £534.00. Penderfynwyd bod hyn yn briodol a derbyn pris y contract.</p>	
<b>4.0</b>	<b>CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI</b>	
4.1	<p>Cadarnhawyd Cofnodion mis Mis Ebrill 2022 fel rhai cywir.</p>	<b>CLERC</b>
4.2	<p>Dim ymateb wedi dod oddi wrth Cyngor Gwynedd ynglŷn â chyfarfod rhithiol a'r swyddogion. Y Clerc i barhau a'r mater o drefnu cyfarfod.</p>	<b>CLERC</b>
4.3	<p>Chae chwarae Lan Mor - cafwyd adroddiad lafar gan y Cynghorydd Emyr Gareth ar y sefyllfa ar hyn o bryd. Gobeithir cwblhau'r gwaith ganol mis Mehefin. Mae'r eitemau coll wedi eu harcheb a bydd angen bythefnos arall i</p>	<b>CLERC</b>

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	wneud y gwaith a bydd hyn yn golygu costau ychwanegol. Mae'r pris wedi ei wirio gyda'r cwmni a gellir ei leihau wrth ddefnyddio wet pour lliw du. Y pris yw £3600 + TAW. Cytunwyd i symud ymlaen i gwblhau'r gwaith.	
<b>5.0</b>	<b>CEISIADAU CYNLLUNIO</b>	
<b>5.1</b>	Rhif Cais:C22/0367/20/LL Lleoliad : Fferm Parciau, Caernarfon, LL55 1TS Bwriad : Codi byngalo ar wahân 3 llofft newydd ar gyfer gweithiwr amaethyddol. <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
<b>5.2</b>	Rhif cais: C22/0353/20/RA Lleoliad : 11 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RZ Bwriad: Cais i ryddhau amod 7 (arolwg ecolegol) o ganiatâd cynllunio C21/0446/20/LL ar gyfer codi tŷ tri llawr tair llofft gydag ardal barcio. <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
<b>5.3</b>	Rhif Cais : C22/0398/20/AC Lleoliad : Plot 11a, Ffordd Caernarfon, Felinheli, LL56 4RZ Bwriad : cais i ryddhau amodau 6 (Mesurau Osgoi Rhesymol) a 7 (Arolwg Ecolegol) o ganiatâd cynllunio C21/0445/20/LL ar gyfer codi tŷ tri llawr tair llofft gyda ardal barcio. <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
<b>5.4</b>	Rhif Cais : C22/0412/20/DT Lleoliad : Llanddwyn View, 1 Lôn Llwyn, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SJ Bwriad : Creu balconi llawr cyntaf / Erection of first floor balcony. <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
<b>6.0</b>	<b>CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISIŌAU A GWEFAN</b>	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau.	
<b>7.0</b>	<b>ASEDAU</b>	
7.1	Cafwyd drafodaeth ynglyn a `r fynwent. Bydd y Clerc a`r Cynhorydd Dafydd Huws yn parhau i wella rheolaeth o ddogfennau a cofnodion y fynwent.	
7.2	Mae graffiti yn parhau ar y safle bws - penderfynwyd cael cwmni i wneud y glanhau. Y Cynghorydd Emyr Gareth i drefnu.	<b>EG</b>
<b>8.0</b>	<b>LLWYBRAU CYHOEDDUS, LON LAS A PHRIFFYRDD</b>	
8.1	Dim adroddiad	
<b>9.0</b>	<b>NEUADD GOFFA A CHLOC</b>	
9.1	Dim gwybodaeth bellach i`r adroddiad mis diwethaf. Mae cwmni Ross Hughes yn gallu cael leino o`r un dyluniad felly gallwn nawr symud ymlaen i ofyn i`r cwmni gwblhau'r gwaith. Y Cynghorydd Daniel Williams i Drefnu	<b>DW</b>
9.2	Mae ymweliad i`r neuadd wedi ei drefnu gan y plymwr a gobeithir gwneud y gwaith angenrheidiol i`r toiled a`r tapiâu yn fuan.	
<b>10.0</b>	<b>CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL</b>	
	Dim adroddiad pellach.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:00	
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad: 14/06/2022</b>